



Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer Ymgeisydd am Swydd

Mae Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth (y cyfeirir ato fel UM neu "UMAber" drwy gydol yr hysbysiad hwn) yn casglu ac yn prosesu data personol sy'n ymwneud ag ymgeiswyr am swyddi fel rhan o'n proses recriwtio. Rydym wedi ymrwmo i fod yn dryloyw ynghylch sut rydym yn casglu ac yn defnyddio'r data hwnnw ac i gyflawni ein rhwymedigaethau diogelu data.

Mae'r hysbysiad hwn yn nodi'r sail ar gyfer casglu, defnyddio a datgelu data personol ein hymgeiswyr am swyddi, yn ogystal â'ch hawliau mewn perthynas â data personol o'r fath.

Pa wybodaeth mae UMAber yn ei chasglu a sut?

Mae UMAber yn casglu ystod o wybodaeth amdanoch chi. Mae hyn yn cynnwys:

- eich enw, cyfeiriad a manylion cyswllt, gan gynnwys cyfeiriad e-bost a rhif ffôn;
- manylion eich cymwysterau, sgiliau, profiad a hanes cyflogaeth;
- gwybodaeth o gyfweliadau a allai fod gennych;
- gwybodaeth am eich hawl i weithio yn y DU; a
- gwybodaeth fonitro cyfle cyfartal, gan gynnwys gwybodaeth am eich tarddiad ethnig, rhywioldeb, iechyd a chrefydd neu gred.

Mae'n bosib y byddwn yn casglu'r wybodaeth hon mewn sawl ffordd. Er enghraifft, gallai data gael ei gynnwys mewn ffurflenni cais neu CV (gan gynnwys pan fydd y rhain yn cael eu hanfon atom fel rhan o geisiadau neu ymholiadau ar hap), a geir o'ch pasbort neu ddogfennau adnabyddiaeth eraill, neu a gesglir trwy gyfweliadau neu ddulliau asesu eraill.

Efallai y byddwn hefyd yn casglu data personol amdanoch gan drydydd parti megis geirada ddarparwyd gan gyn-gyflogwyr. Byddwn yn ceisio gwybodaeth gan drydydd parti dim ond ar ôl i ni gynnig swydd i chi.

Bydd data'n cael ei storio mewn amryw o wahanol leoedd, gan gynnwys ar y cofnod o'ch cais, ein cronfa ddata AD ar-lein a'n system e-bost.

Pam mae UMAber yn prosesu data personol?

Mae UMAber yn casglu ac yn prosesu eich data at nifer o ddibenion a lle mae gennym sail gyfreithiol i wneud hynny, fel a ganlyn:

Mae gan UMAber hawl ddilys i brosesu data personol yn ystod y broses recriwtio ac ar gyfer cadw cofnodion o'r broses. Mae prosesu data gan ymgeiswyr am swyddi yn caniatáu i ni reoli'r broses recriwtio, asesu a chadarnhau addasrwydd ymgeisydd ar gyfer cyflogaeth a phenderfynu i bwy y byddwn yn cynnig swydd. Efallai y bydd angen i ni hefyd brosesu data gan ymgeiswyr am swyddi er mwyn ymateb i hawliadau cyfreithiol ac amddiffyn yn eu herbyn.

Mewn rhai achosion, mae angen i ni brosesu data i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol. Er enghraifft, mae'n ofynnol i ni wirio cymhwysedd ymgeisydd llwyddiannus i weithio yn y DU cyn i'r gyflogaeth ddechrau.

Gall UMAber brosesu gwybodaeth ynghylch a yw ymgeiswyr yn anabl ai peidio fel y gallwn wneud addasiadau rhesymol ar gyfer ymgeiswyr ag anabledd. Pan fyddwn yn prosesu



categoriâu arbennig eraill o ddata, megis gwybodaeth am darddiad ethnig, rhywioldeb, iechyd, crefydd neu gred, mae hyn at ddibenion monitro cyfle cyfartal. Byddwn yn prosesu'r mathau hyn o ddata er mwyn sicrhau y gallwch chi neu ni gyflawni ein rhwymedigaethau neu arfer ein hawliau o dan y gyfraith sy'n ymwneud â chyflogaeth neu (dim ond lle bo hynny'n berthnasol) i'n galluogi i sefydlu, arfer neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol.

Ni fyddwn yn defnyddio'ch manylion at unrhyw ddiben heblaw'r broses recriwtio rydych chi'n rhan ohoni.

Pwy sydd â mynediad i'r data?

Efallai y bydd eich gwybodaeth yn cael ei rhannu'n fewnol yn UMAber at ddibenion y broses recriwtio. Mae hyn yn cynnwys aelodau o'r tîm AD, cyfwelwyr sy'n ymwneud â'r broses recriwtio, a rheolwyr yn yr adran sydd â swydd wag.

Ni fyddwn yn rhannu eich data â thrydydd parti, oni bai bod eich cais am gyflogaeth yn llwyddiannus a bod swydd yn cael ei chynnig i chi. Yna byddwn yn rhannu eich data â chyn-gyflogwyr er mwyn cael geirda.

Yn ogystal, efallai y bydd angen i ni rannu eich gwybodaeth bersonol â rheoleiddiwr neu mewn rhyw ffordd arall i gydymffurfio â'r gyfraith.

Sut mae UMAber yn amddiffyn data?

Mae UMAber yn cymryd diogelwch eich data o ddifrif. Mae gennym bolisiau a rheoliadau mewnol ar waith i sicrhau nad yw eich data yn cael ei golli, ei ddinistrio, ei gamddefnyddio na'i ddatgelu'n ddamweiniol, ac nad yw'n cael ei gyrchu ac eithrio gan ein personél fel rhan o gyflawni eu dyletswyddau.

Am ba hyd y mae UMAber yn cadw data?

Os bydd eich cais am gyflogaeth yn aflwyddiannus (gan gynnwys pan fyddwch wedi gwneud cais ar hap i ni am rôl nad yw ar gael), byddwn yn cadw'ch data ar ffeil am 6 mis. Ar ddiwedd y cyfnod hwnnw, caiff eich data ei ddileu neu ei ddinistrio (oni bai bod angen i ni ei gadw am fwy o amser i arfer neu amddiffyn unrhyw hawliadau cyfreithiol).

Os yw'ch cais am gyflogaeth yn llwyddiannus, bydd data personol a gesglir yn ystod y broses recriwtio yn cael ei drosglwyddo i'ch ffeil bersonél a'i gadw yn ystod eich cyflogaeth. Bydd y cyfnodau y cedwir data gweithwyr yn cael eu darparu i chi mewn rhybudd preifatrwydd ar wahân.

Eich hawliau

Fel gwrthrych data, mae gennych nifer o hawliau o dan y gyfraith diogelu data. Gallwch chi wneud y canlynol:

- cyrchu a chael copi o'ch data ar gais;
- ei gwneud yn ofynnol i UMAber newid data anghywir neu anghyflawn;
- ei gwneud yn ofynnol i UMAber ddileu neu roi'r gorau i brosesu'ch data, er enghraifft lle nad oes angen y data mwyach at ddibenion prosesu;
- gwrthwynebu prosesu eich data lle mae UMAber yn dibynnu ar ei fuddiannau cyfreithlon fel sail gyfreithiol ar gyfer prosesu; neu



- gofyn i ni drosglwyddo'ch data i sefydliad arall.

Os ydych chi am arfer unrhyw un o'r hawliau hyn neu os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am yr hysbysiad hwn neu sut y byddwn yn mynd at i brosesu eich data yn fwy cyffredinol, cysylltwch â'r Prif Weithredwr.

Os ydych yn credu bod UMAber wedi methu â chydymffurfio â'ch hawliau diogelu data, gallwch gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (<https://ico.org.uk/>).

Beth os na fyddwch chi'n darparu data personol?

Nid oes unrhyw rwymedigaeth statudol na chytundebol arnoch i ddarparu data i UMAber yn ystod y broses recriwtio. Fodd bynnag, os na fyddwch yn darparu'r wybodaeth, mae'n bosib na fyddwn yn gallu prosesu'ch cais.